# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser: Ymchwiliad i Anghydraddoldebau – Sesiwn Dystiolaeth 2

## Manylion allweddol

- **Beth:** Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser, lansio ymchwiliad i ganser ac anghydraddoldebau, yn ogystal â chynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- **Pryd:** 14.00 – 15.30, dydd Iau 8 Rhagfyr 2022
- **Ble**: Cyfarfod ar Teams.
- **Diben y sesiwn:** Cyflwyno tystiolaeth i aelodau ar anghydraddoldebau mewn perthynas â chanser.

## Pwnc

Mae'r sesiwn hon yn canolbwyntio ar gyflwyno tystiolaeth ynghylch mynediad at wasanaethau, triniaeth a chymorth i bobl mewn cymunedau difreintiedig, gyda'r siaradwyr Kate Brain – Prifysgol Caerdydd, Tracey Burke – Cancer Aid Merthyr Tudful, Jon Antoniazzi – Marie Curie a Gerard McMahon – Bowel Cancer UK.

## Agenda

1. **Lansio ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol i anghydraddoldebau 14.05 – 15.20**

a. Sgwrs gan Kate Brain, Prifysgol Caerdydd.
b. Cwestiynau i Kate gan Aelodau ac eraill a oedd yn bresennol.
c. Sgwrs gan Tracey Burke, Cancer Aid Merthyr Tudful.
ch. Cwestiynau i Tracey gan Aelodau ac eraill a oedd yn bresennol.
d. Sgwrs gan Gerard McMahon, Bowel Cancer UK.
dd. Cwestiynau i Gerard gan Aelodau ac eraill a oedd yn bresennol.
e. Sgwrs gan Jon Antoniazzi, Marie Curie.
f. Cwestiynau i Jon gan Aelodau ac eraill a oedd yn bresennol.

2. **UFA 15.20-15.30**

## Yn bresennol

1. Katie Till
2. Tracey Burke
3. Megan Cole
4. Katherine Brain
5. Jon Antoniazzi
6. Gerard McMahon
7. Rees, David (Aelod o'r Senedd)
8. Dawn Casey (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Gofal a Diogelwch Cleifion)
9. Hedges, Mike (Aelod o'r Senedd)
10. Heather Lewis (Iechyd Cyhoeddus Cymru, Parc Magden)
11. Davies, Anthony (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – y Gyfarwyddiaeth Ansawdd a Nyrsio)
12. Sikha de Souza (Iechyd Cyhoeddus Cymru – Rhif 2, Capital Quarter)
13. Bellin, Ioan (Staff Cymorth Aelod)

14. Benedict Lejac
15. Llinos Price

16. Madelaine Phillips

17. Jenni Macdougall
18. Paul McGlinchey
19. Maddy Young
20. Greg Pycroft
21. Hussain, Altaf (Swyddfa Altaf Hussain)
22. Dr Peter Henley
23. Dr Lee Campbell
24. Emma Stevenson
25. Judi Rhys
26. Joanne Ferris
27. Jones, Nicholas
28. Richards, Ellie (Staff Cymorth Aelod)
29. Rose, Graeme
30. Doyle, Ryland (Staff Cymorth Aelod)
31. HUGHES-MORRIS Trefor (First Hydro - Dinorwig)

**Cyflwyniadau**

Mae'r Cadeirydd, David Rees, yn cyflwyno'r sesiwn a'r siaradwyr gan amlinellu ffocws y sesiwn ar fynediad at wasanaethau mewn cymunedau difreintiedig.

Mae David yn cyflwyno Kate a fydd yn trafod ymddygiadau ceisio iechyd a chyfranogiad mewn rhaglenni sgrinio canser yng Nghymru.

**Sgwrs gan Kate Brain**

Mae Kate yn cyflwyno ei sgwrs ac yn amlinellu y bydd yn trafod diagnosis canser a'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau ar hyn o bryd.

Mae'n trafod y rhwystrau i gael diagnosis canser, gan gynnwys bod grwpiau penodol sy'n wynebu stigma yn llai tebygol o gael eu sgrinio a bod anghydraddoldebau yn chwarae rhan arwyddocaol yn y modd y mae pobl yn rhyngweithio â'r GIG a'i wasanaethau.

Yna mae Kate yn siarad am y gwaith y mae hi a'i thîm ym Mhrifysgol Caerdydd wedi'i wneud i nodi a cheisio dileu'r rhwystrau hyn. Mae hyn yn cynnwys deall y rhwystrau i iechyd a pham eu bod yn bodoli. Mae hi'n nodi gallu, cyfle a chymhelliant fel yr ymddygiadau iechyd craidd i ddeall cymhellion pobl.

Mae'n ehangu ar allu, gan ddweud bod ymwybyddiaeth is o symptomau yn dod o dan hyn, a'i fod yn allweddol o ran bod grwpiau sy'n agored i niwed ddim yn ceisio cael cymorth meddygol pan fydd ei angen arnynt. Er enghraifft, efallai bydd y rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn cam-briodoli symptomau annelwig.

O ran cyfleoedd, mae Kate yn nodi rôl cymunedau a'u strwythurau cefnogi fel rhwystr allweddol. Gall dylanwadau cymdeithasol mewn cymunedau gael effeithiau cadarnhaol a negyddol.

O ran ail-ysgogi,  mae credoau pobl am ddiagnosis o ganser a manteision cael triniaeth yn bwysig, gyda hyder ynghylch gweithredu ar symptomau yn allweddol.

Yna mae Kate yn dyfynnu ymchwil a gynhaliwyd gan aelod o’i thîm ac yn tynnu sylw at ddyfyniadau gan grwpiau ffocws sy’n amlinellu’r cysylltiad rhwng amddifadedd a ffactorau risg uwch o ganser.

**Mae David Rees yn cyflwyno’r siaradwr nesaf, Tracey Burke – Cancer Aid Merthyr Tudful**

**<u>Sgwrs gan Tracey Burke</u>**

Mae Tracey yn amlinellu'r pynciau y bydd hi'n eu trafod am gludiant cymunedol i'r rhai sy'n byw gyda chanser mewn ardaloedd difreintiedig a gwledig yng Nghymru.

Mae Tracey yn dechrau drwy drafod y stigma y mae llawer o unigolion yn ei deimlo am orfod dibynnu ar y sector elusennol i'w cynorthwyo. Mae unigolion yn teimlo cywilydd bod angen iddynt ofyn am help. Mae hi hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod yr argyfwng costau byw wedi golygu nad y rhai sydd mewn tlodi yn unig sy’n gofyn am help, ond hefyd grwpiau na fyddai angen cymorth yn draddodiadol, fel y dosbarth canol sy’n gweithio.

Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd dileu'r stigma o gael cymorth gan y sector elusennol a'r angen i unigolion deimlo'n gyfforddus a gallu ceisio cymorth pan fydd ei angen arnynt.

Mae hi’n mynd ymlaen i drafod y problemau sy’n ymwneud â llythrennedd mewn llawer o gymunedau difreintiedig yng Nghymru. O’r herwydd, efallai na fydd adnoddau a chymorth yn cael eu darparu trwy e-bost bob amser, ac mae llawer o unigolion angen sgyrsiau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn i drafod yr help sydd ei angen arnynt. Mae hi hefyd yn tynnu sylw at y rhwystrau ariannol o ran y ddarpariaeth sengl o wasanaethau gyda llawer o unigolion yn methu fforddio gliniaduron neu iPads i siarad ag elusennau neu i ymchwilio i'r opsiynau sydd ar gael i'w helpu.

Yna bu Tracey yn trafod yr effeithiau a gafodd y pandemig ar ddarparu gwasanaethau, gyda llawer o unigolion yr oedd angen triniaeth arnynt hefyd yn bobl risg uchel o ran oblygiadau COVID difrifol. Roedd hyn yn golygu bod  gwasanaethau wedi gorfod addasu a bod angen i wirfoddolwyr roi mesurau ar waith i sicrhau diogelwch cleifion risg uchel.

**<u>Cwestiynau i Tracey</u>**
***C. David Rees AS yn holi Tracey am ansawdd bywyd cleifion yn ystod eu triniaeth***
Mae Tracey yn trafod nad oes gan lawer o unigolion ansawdd bywyd uchel yn ystod eu triniaeth a bod y pandemig wedi gwaethygu bywydau llawer o unigolion gan na allent gael mynediad at strwythurau cymorth na chwrdd â ffrindiau a theulu.

**David Rees yn cyflwyno Gerard McMahon – Bowel Cancer UK**

**<u>Sgwrs gan Gerard</u>**
Mae Gerard yn amlinellu ei bwnc, sef canser y coluddyn yng Nghymru, a'r problemau y mae unigolion yn eu hwynebu o ran ail-sgrinio.

Yna mae Gerard yn trafod pwysigrwydd cael diagnosis yn gynharach a'r ffyrdd y gallwn normaleiddio sgrinio ar gyfer canser y coluddyn, fel bod unigolion yn gweld sgrinio fel rhywbeth y dylent ei wneud.

Yna mae Gerard yn trafod yr ystadegau ar gyfer diagnosis cynnar a goroesi yn erbyn y rhai sy'n cael diagnosis yn ddiweddarach ac sy'n wynebu siawns uwch o farw.
Mae'n mynd ymlaen i drafod gweithredu mesurau sgrinio newydd gan Lywodraeth Cymru a gostwng yr oedran sgrinio ar gyfer canser y coluddyn i 55. Mae'n nodi bod hwn yn gam pwysig o ran rhoi diagnosis cynharach i unigolion a phwysigrwydd ystyried sgrinio'r coluddyn fel gwiriad arferol.

Yna dechreuodd Gerard amlygu'r gwahaniaethau yn y nifer sy'n cael eu sgrinio yn ôl rhyw, ethnigrwydd a grŵp economaidd-gymdeithasol. Daeth i'r casgliad bod y rhai sy'n cael eu gwthio i'r cyrion o ran eu hiechyd yn debygol o weld canlyniadau oherwydd hynny.

**David Rees yn cyflwyno'r siaradwr nesaf Jon Antoniazzi – Marie Curie**

**<u>Sgwrs gan Jon</u>**

Mae Jon yn amlinellu pwnc ei sgwrs, sef hosbisau a gofal diwedd oes ac anghydraddoldebau.

Mae'n dechrau drwy rannu hanesion am bwysigrwydd gofal diwedd oes a'r gwaith hanfodol y mae Marie Curie ac elusennau eraill yn ei wneud wrth ddarparu hyn i gleifion.
Mae'n parhau drwy drafod demograffeg a chyfansoddiad cleifion canser, gan nodi'r anghenion amrywiol unigolion. Er enghraifft, mae gan ddyn 70 oed sydd wedi ymddeol ac sydd â chanser anghenion gwahanol i fenyw 20 oed.

Yna mae Jon yn dechrau trafod effeithiau amddifadedd ac anghydraddoldebau economaidd ar fywydau'r rhai sy'n byw gyda chanser. Yn benodol, mae Jon yn trafod effeithiau'r argyfwng costau byw ar bobl sydd â chanser ac sydd angen cymorth gan beiriannau ac na ellir eu gadael mewn cartrefi oer.

**David Rees yn cloi'r sesiwn**